

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 7 – 15 Ebrill 2018

Pafiliwn Llywodraeth Cymru, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanellwedd, Llanfair-ym-Muallt

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd

Peter Rees – Aelod Annibynnol

Steve Hughson – Aelod Annibynnol

Will Prichard – NFU

Ivan Monckton – UNITE

Bryan Godsell – UNITE

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru

Karla Price – Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Darren Williams – FUW

Eitem 1 – Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan nodi bod un ymddiheuriad wedi dod i law. Croesawodd hefyd Karla Price a ymunodd ag Ysgrifenyddiaeth Llywodraeth Cymru ac Will Prichard a ymunodd â'r Panel i gynrychioli NFU yn dilyn penodi John Davies yn Llywydd NFU Cymru.

Eitem 2 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd

Roedd y gwaith a oedd yn cael ei wneud o ran casglu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur yn symud yn ei flaen yn dda. Roedd yr Is-bwyllgor Datblygu Sgiliau a Hyfforddiant wedi trafod hyn ac roedd y gwaith a gofnodwyd yn y cyfarfod diwethaf o ran datblygiad proffesiynol parhaus yn parhau.

Nod y cyfarfod oedd dechrau cynnal trafodaethau ar foderneiddio Gorchmynion Cyflogau Amaethyddol yn y dyfodol.

Eitem 3 – Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod (9 Tachwedd 2017)

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Cynhaliwyd trafodaeth am gomisiynu Adroddiad Economaidd Annibynnol i lywio gwaith y Panel fel y trafodwyd yng Nghyfarfod 6. Nodwyd y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) yn ffynhonnell bosibl ar gyfer y gwaith hwn am fod ganddo

ymwybyddiaeth gyfredol a thrylwyr o'r sector ond cytunwyd bod angen ystyried y pwnc o bob ongl.

Eitem 4 – Moderneiddio'r Gorchymyn Cyflogau

Cyflwynwyd papur trafod ar y pwnc cyn y cyfarfod. Nod moderneiddio oedd ystyried a oedd y strwythur a chynnwys presennol y gorchmynion cyflogau amaethyddol a etifeddwyd ganddynt yn dal i fod yn berthnasol ar gyfer 2018 a'r dyfodol. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen i'r Panel gyflwyno cynigion clir ar gyfer newid a'r sail resymegol amdanynt.

Derbyniodd y Panel y byddai cyflwyno gorchmynion yn llai aml nag yn flynyddol o fudd. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pa ddarpariaethau y byddai angen eu cynnwys mewn Gorchymyn a fydd yn para am 2 flynedd.

Roedd UNITE o'r farn bod angen nodi terfynau amser ee cyfraddau o x am un flywyddyn a chyfradd o y ar gyfer cyfnod dilynol. Ystyriwyd y dull hwn yn dderbyniol ond roedd angen mwy o fanylder er mwyn ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Hefyd, ystyriodd y Panel y mater o ran pobl ifanc yn gweithio ar ffermydd. Roedd angen eglurder ynghylch statws cyflogaeth pobl ifanc / aelodau teulu / partneriaid sy'n gweithio ar fferm. Cytunwyd y byddai taflen ffeithiau yn cael ei drafftio ar statws y mathau amrywiol o weithwyr, prentisiaid etc i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

Yna, trafododd y Panel y posibilrwydd bod angen ailddiffinio Graddau Gweithwyr gan fod pryder yn parhau ynghylch priodoldeb / tegwch o ran taliadau, yn enwedig ar gyfer y 2 radd gyntaf sydd angen eu diffinio'n well neu eu huno mewn rhyw ffordd. Nodwyd bod meini prawf penodol megis "gweithio gyda pheiriannau / anifeiliaid" wedi newid cryn dipyn ers sefydlu'r Gorchmynion Cyflogau gyntaf.

Cytunwyd bod angen eglurder pellach o ran:

- Sut i drin Prentisiaid gan fod Graddau 1 a 2 yn debyg;
- Y diffiniad o "goruchwyliaeth";
- A ellir rhoi canran o gyfradd i hyfforddeion? Byddai angen cydymffurfio â chyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol / Cyflog Byw Cenedlaethol bob amser.
- A yw'r lwfansau yn dal i fod yn berthnasol?

Dangosodd y Panel eu bod yn pryderu bod gweithwyr yn meithrin sgiliau nad ydynt yn berthnasol i'w swydd.

Credwyd y dylai cyflogwyr gytuno ar raglen hyfforddi. Gallai'r gorchmynion gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn.

Eitem 5 – Unrhyw Fater Arall

Nododd yr aelodau annibynnol o'r Panel eu bod wedi mynychu cynhadledd ar gynllunio prosiectau / datblygiad personol a oedd wedi cynnwys Cyswllt Ffermio a Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru. Byddai adroddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Nid oedd unrhyw fawr arall. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.